Bute Energy
Cymuned

# Grŵp Cyswllt Cymunedol Parc Ynni Twyn Hywel

## Dydd Mercher 18 Chwefror 2026

### Presenoldeb:

**Yn Bresennol**

- Eluned Lewis (EL) – Rheolwr Buddsoddi Cymunedol, Bute Energy
- Kadun Rees (KR) – Cydlynydd Materion Allanol, Bute Energy
- Cerys Bowen (CB) – Rheolwr Brand a Digidol, Bute Energy
- Charlotte Bishop (CB) – Cynghorydd Sir
- John Taylor (JT) – Cynghorydd Sir
- Sean Morgan (SM) - Cynghorydd Sir
- Brenda Miles (BM) – Cynghorydd Sir
- Kim Allen (KA) – Cyngor Cymuned Nelson
- Alison Palmer (AP) – GAVO
- Natalie Sargent (NS) – Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo
- Dave Brunton (DB) – Canolfan Galw Heibio Ieuenctid Senghenydd
- Owen Hughes (OH) – Cynrychiolydd Ieuenctid lleol

**Ymddiheuriadau**

- Alan Angel (AA) – Cynghorydd Sir
- Matthew Tucker (MT) - Coleg y Cymoedd, Clwb Busnes Caerffili, Clwb Busnes RhCT
- Hywel Gornow (HG) – Cynghorydd Sir

Bute Energy Cymuned

## Trosolwg o'r agenda

1. Croeso a chyflwyniadau
2. Ymddiheuriadau
3. Cytuno ar gofnodion cyfarfod diwethaf y GCC
4. Diweddariad am y prosiect
5. Diweddariadau ynni cymunedol
6. Recriwtio panel lleol
7. Platfform grantiau a rhyddhau cynnar
8. Unrhyw Fater Arall
9. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

## Trafodaethau a nodiadau

### 1. Croeso a chyflwyniadau

*Croesawodd Eluned bawb i'r cyfarfod a chynhaliwyd cyflwyniadau o amgylch y bwrdd.*

### 2. Cytuno ar gofnodion cyfarfod diwethaf y GCC

*Cynigiodd y Cynghorydd Colin Mann y cofnodion, ac eiliodd y Cynghorydd Charlotte Bishop hwy, derbyniwyd y cofnodion gyda'r cywiriad canlynol:*

**Camau Gweithredu**

- **KR:** Diweddaru enw Dave Brunton yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol
- **KR:** Ychwanegu Owen Hughes at y gadwyn e-bost ar gyfer y GCC

### 3. Diweddariad am y prosiect

*Darparodd KR ddiweddariad am y prosiect*

- Esboniodd KR y disgwylir y penderfyniad buddsoddi terfynol ar gyfer Parc Ynni Twyn Hywel yn fuan iawn, gyda'r gwaith adeiladu i fod i

ddechrau ddiwedd mis Ebrill neu ddechrau mis Mai, ac mae'r prosiect yn parhau ar y trywydd iawn.

- Manylodd KR ar y cyhoeddiad contract ar gyfer gwahaniaeth AR7, gan nodi ei fod yn gontract 20 mlynedd a ddyfarnwyd i Dwyn Hywel, gan sefydlogi prisiau trydan a chefnogi hyfywedd y prosiect. Gellir dod o hyd i esboniad pellach yma ac yma.
- Tynnodd KR sylw at y ffaith mai Twyn Hywel yw'r prosiect ar y tir mwyaf yng Nghymru i dderbyn contract ar gyfer gwahaniaeth, ac mae'r rowndiau dyrannu diweddar wedi gweld mwy o gynrychiolaeth i Gymru, gan gynnwys prosiectau ar y môr.
- Nododd KR y bydd y cyfnod adeiladu'n cymryd hyd at 18 mis, gyda chynhyrchu trydan wedi'i dargedu ar gyfer diwedd 2027.

## 4. Diweddariad ynni cymunedol

*Rhoddodd EL ddiweddariad ers y cyfarfod diwethaf*

- Arweiniodd EL drafodaeth ar fentrau ynni cymunedol, gan gynnwys ffurfio Grŵp Ynni Cymunedol mewnol, astudiaethau dichonoldeb parhaus ar gyfer prosiectau solar a hydro, ac ymgysylltu â chynghorau cymuned.
- Disgrifiodd EL sefydlu Grŵp Ynni Cymunedol mewnol yn Bute Energy, gan ddefnyddio arbenigedd o wahanol adrannau i gefnogi prosiectau ynni cymunedol.
- Adroddodd EL am ymweliadau parhaus â chynghorau cymuned i adolygu'r astudiaeth dichonoldeb a gynhaliwyd gan Dulas, ar ran Bute, gan sicrhau bod yr holl adeiladau a chyfleoedd cymunedol perthnasol yn cael eu hystyried.
- Trafododd EL y potensial ar gyfer prosiect microhydro yn Nant Llanbradach, gan nodi ei phen 85 metr addawol a'r angen am arolwg cerdded. Cadarnhaodd CM fod lleoliad y safle a chyfranogiad perchennog y tir wedi'i drafod.
- Esboniodd EL gymhlethdodau ynghylch cytundebau CP30 ar gyfer prosiectau solar dros 5 megawat, ac ymdrechion parhaus i nodi lleoliadau a thechnolegau hyfyw.

*Gofynnodd yr aelodau gwestiynau*

- Cododd NS bwysigrwydd perchnogaeth gymunedol ar gyfer cadw cyfoeth, gan awgrymu nodi sefydliadau angor a rhaglenni cymorth technegol. Cadarnhaodd EL ymrwymiad i ynni sy'n eiddo i'r gymuned a modelau cydweithredol.

- Gofynnodd KA am fap er mwyn hwyluso mewnbwn lleol i astudiaethau dichonoldeb, a chadarnhaodd EL fod map GIS yn cael ei baratoi i'w ddosbarthu i hwyluso adborth cymunedol.
- Holodd KA am drefniadau perchnogion tir ar gyfer prosiectau ynni cymunedol, ac esboniodd EL fod caniatâd perchnogion tir yn hanfodol, gyda thrafodaethau ar fuddion cymunedol a pherchnogion tir i gael sylw wrth i brosiectau fynd rhagddynt.

**Camau Gweithredu**

- **EL:** Dosbarthu'r map dichonoldeb ynni cymunedol wedi'i ddiweddaru gyda'r cyfesurynnau wedi'u cywiro
- **EL:** Anfon gwybodaeth a llun o'r safle hydro posibl yn Nant Llanbradach

## 5. Recriwtio panel lleol

*Cyflwynodd CB y cynllun recriwtio ar gyfer y panel grantiau lleol, gan amlinellu gofynion, amserlen, a dulliau ymgeisio niferus.*

- Disgrifiodd CB y panel fel un yn cynnwys 8 i 12 aelod o'r gymuned o Gaerffili a Rhondda Cynon Taf, gyda disgwyl iddynt ymrwymo 1 i 2 ddiwrnod y mis i adolygu ceisiadau am gyllid, cymryd rhan mewn cyfarfodydd, a gwneud argymhellion i'r bwrdd elusennol.
- Amlinellodd CB dri dull ymgeisio: ffurflen ar-lein, cyflwyniad drwy'r post, a sgyrsfot posibl, gan sicrhau bod pob ymgeisydd yn ateb cwestiynau craidd am eu cysylltiad lleol, eu diddordeb, a'u hanghenion cefnogi; mae opsiynau digidol a heb fod yn ddigidol yn cael eu hystyried er mwyn sicrhau cynhwysiant.
- Manylodd CB ar gynlluniau i hyrwyddo'r cyfle drwy sianeli Bute Energy, partneriaid, hysbysebu wedi'i dargedu a marchnata micro-ddylanwadwyr, gyda'r nod o gyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a phobl ifanc.

*Cynhaliwyd trafodaeth fer, gyda'r aelodau'n gofyn cwestiynau*

- Cafwyd trafodaeth fer ynghylch a ddylid cynnwys cynghorwyr, gyda chonsensws nad yw cynghorwyr wedi'u heithrio ond na ddylent ffurfio mwyafrif. Awgrymodd BM y dylai aelodau'r panel fod â buddiannau cymunedol eang, a chyfeiriodd NS at ganllawiau'r comisiwn elusennau.
- Pwysleisiodd EL a CB dryloywder yn y broses ddewis, gan gynnig ceisiadau galwad agored, diwydrwydd dyladwy gan y tîm, a rhannu

ystadegau ceisiadau gyda'r grŵp cyswllt cymunedol. Awgrymodd NS Sargent fatrics sgorio ar gyfer tegwch ac adborth.
- Trafododd NS ac OH bwysigrwydd cymhellion i wirfoddolwyr, fel gwella CV a geirda, gan nodi'r ymrwymiad sy'n ofynnol a'r angen am gyfleu manteision yn glir i ddenu ymgeiswyr amrywiol.
- Gofynnodd KA a fyddai rhyddhau cynnar yn digwydd ar ddechrau'r gwaith adeiladu. Nododd EL fod angen i'r panel lleol fod yn ei le yn gyntaf i weinyddu'r grantiau.

Camau Gweithredu

**Camau Gweithredu**

- **CB:** Mireinio iaith a chyflwyniad disgrifiad rôl gwirfoddol y panel lleol i sicrhau ei fod yn glir, yn hygyrch, ac yn apelgar, gan osgoi terminoleg disgrifiad swydd
- **EL:** Rhannu'r cynllun recriwtio diwygiedig ar gyfer y panel lleol a'r cynnig cyfansoddiad gyda'r grŵp ar e-bost i gael adborth cyn y lansiad cyhoeddus
- **EL:** Ystyried a mynd i'r afael â'r cydbwysedd rhwng swyddogion etholedig a chynrychiolaeth gymunedol ehangach yng nghyfansoddiad y panel lleol
- **EL / CB:** Datblygu a rhannu matrics sgorio ar gyfer ceisiadau panel lleol i sicrhau tryloywder a thegwch, a rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus, gan gynnwys cyfeirio at gyfleoedd gwirfoddoli eraill
- **CB:** Cysylltu ag Interlink, Gavo a swyddogion gwirfoddoli WCVA i hysbysebu'r cyfle ar y panel lleol a sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau
- **EL:** Ymgysylltu â phanel cynnwys tenantiaid United Welsh Housing fel ffynhonnell bosibl ar gyfer recriwtio i'r panel lleol

## 6. Platfform grantiau a rhyddhau cynnar

*Cynigiodd EL symud yr eitem agenda hon i'r cyfarfod nesaf oherwydd prinder amser. Derbyniwyd hyn gan y grŵp.*

## 7. Unrhyw Fater Arall

- Gofynnodd KA a fyddai'r GCC yn parhau ar ôl y gwaith adeiladu. Cadarnhaodd EL a KR y bydd y Grŵp Cyswllt Cymunedol yn parhau i fod yn weithredol drwy gydol y cyfnod adeiladu o 18 mis, ond bydd yn dod i ben wedyn, gan drosglwyddo ei gyfrifoldebau i'r panel lleol unwaith y bydd y Parc Ynni yn weithredol.

Ymatebodd KR i gwestiwn blaenorol KA ynghylch oedi mewn amodau cynllunio ar gyfer danfoniadau Llwyth Anwahanadwy Abnormal (AIL), a amlinellir isod:

- *Rydyn ni wedi gofyn am ohirio'r amod ar gyfer danfoniadau AIL (Llwyth Anwahanadwy Abnormal) oherwydd dim ond ychydig cyn i'r danfoniadau ddigwydd y mae angen i'r amodau hynny fod yn eu lle mewn gwirionedd.*
- *Os yw'r amod yn ofynnol yn rhy gynnar - ymhell cyn i'r danfoniadau AIL fod yn digwydd - gall y prosiect ofyn am newid yr amseriad fel ei fod yn cyd-fynd â'r amserlen adeiladu wirioneddol.*
- *Mae'n normal addasu amodau cynllunio wrth i amserlenni'r prosiect ddod yn gliriach. Hyd yn oed os bydd y pwynt sbardun yn newid, mae'n rhaid bodloni holl ofynion yr amod yn llawn cyn y gall y gwaith neu'r danfoniadau perthnasol ddigwydd.*

I grynhoi, esboniodd KR fod tîm y prosiect wedi gofyn am ohirio amodau cynllunio ar gyfer danfoniadau AIL fel eu bod yn cael eu gweithredu ychydig cyn y danfoniadau, gan sicrhau cyd-fynd â'r amserlen adeiladu wirioneddol; bydd yr holl ofynion yn cael eu bodloni cyn y gwaith neu'r danfoniadau perthnasol.

- Hysbysodd NS y grŵp am y ffilm *'The Coal Beneath Our Feet, The Wind Above Our Heads*' sy'n teithio o gwmpas cymoedd De Cymru, gan ei hawgrymu fel llwyfan ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a thrafodaeth ar ynni adnewyddadwy.

## 8. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

**Dyddiad:** 28 Ebrill

**Amser:** 18:30

**Lleoliad:** Canolfan Gymunedol Llanbradach.

**Cau'r sesiwn.**

## Camau Gweithredu o'r cyfarfod

| Cam Gweithredu | Arweinydd |
|---|---|
| **Diweddaru enw Dave Brunton yng nghofnodion cyfarfod diwethaf y GCC** | KR |
| **Dosbarthu'r map dichonoldeb ynni cymunedol wedi'i ddiweddaru gyda'r cyfesurynnau wedi'u cywiro** | EL |
| **Anfon gwybodaeth a llun o'r safle hydro posibl yn Nant Llanbradach** | EL |
| **Mireinio iaith a chyflwyniad disgrifiad rôl gwirfoddol y panel lleol i sicrhau ei fod yn glir, yn hygyrch, ac yn apelgar, gan osgoi terminoleg disgrifiad swydd** | CB |
| **Rhannu'r cynllun recriwtio panel lleol diwygiedig a'r cynnig cyfansoddiad gyda'r grŵp ar e-bost i gael adborth cyn y lansiad cyhoeddus** | EL |
| **Ystyried a mynd i'r afael â'r cydbwysedd rhwng swyddogion etholedig a chynrychiolaeth gymunedol ehangach yng nghyfansoddiad y panel lleol** | EL |
| **Datblygu a rhannu matrics sgorio ar gyfer ceisiadau panel lleol i sicrhau tryloywder a thegwch, a rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus, gan gynnwys cyfeirio at gyfleoedd gwirfoddoli eraill** | EL / CB |
| **Cysylltu ag Interlink, Gavo, a swyddogion gwirfoddoli WCVA i hysbysebu'r cyfle panel lleol a sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau** | CB |
| **Ymgysylltu â phanel cynnwys tenantiaid United Welsh Housing fel ffynhonnell bosibl ar gyfer recriwtio i'r panel lleol** | EL |
| **Ychwanegu Owen Hughes at y gadwyn e-bost** | KR |